Cyllid & Thollau EM

Gwneud Cais am Fudd-dal plant

Nodiadau a ffurflen gais

Dim ond am dri mis y gellir ôl-ddyddio Budd-dal Plant.
Os byddwch yn aros cyn gwneud cais, gallech golli arian.

NODIADAU BUDD-DAL PLANT
NODIADAU CH2 (2009)

I'w defnyddio o fis Ebrill 2009

Cadwch y nodiadau hyn fel y gallwch gyfeirio atynt yn y dyfodol

Cynnwys

Ynglŷn â Budd-dal Plant 3
Cyflwyniad 3
Beth yw Budd-dal Plant? 3
Ar gyfer pwy y telir Budd-dal Plant 3
Pryd i wneud cais am Fudd-dal Plant 4
Faint y gallwch ei gael 4
Pwy all gael Budd-dal Plant 5
Sut i gysylltu â ni i gael help 6
Os nad ydych yn fodlon ar ein gwasanaeth 7
Llenwi'r ffurflen gais 8
Beth sydd angen i chi ei anfon gyda'ch ffurflen gais 8
Rhan 1 Manylion personol 9
Rhan 2 Manylion eich partner 11
Rhan 3 Plant rydych am wneud cais ar eu cyfer 11
Rhan 4 Plant nad ydynt yn blant i chi 12
Rhan 5 Sut y byddwn yn eich talu 13
Rhan 6 Gwybodaeth arall 16
Rhan 7 Datganiad 16
Rhan 8 Beth i'w wneud nawr 16
Beth fydd yn digwydd nesaf 17
Budd-daliadau eraill sy'n gysylltiedig â Budd-dal Plant 17
Y Gronfa Ymddiriedolaeth Plant 17
Credydau treth 17
Diogelwch Cyfrifoldebau Cartref 17
Lwfans Gwarcheidwad 21
Deddf Diogelu Data 22
Help arall i bobl â phlant 22
Credydau treth 22
Costau iechyd 23
Rhieni Unigol 23
Taflenni defnyddiol 23

Mae'r nodiadau hyn ar gael mewn fformatau amgen.

Rhowch wybod i ni os hoffech gael fersiwn Braille, sain neu brint bras o'r nodiadau hyn.
Os nad Cymraeg na Saesneg yw eich iaith gyntaf, gallwn ddarparu gwasanaeth dehongli dros y ffôn ar gais. Gweler 'Sut i gysylltu â ni i gael help' ar dudalen 6.

Ynglŷn â Budd-dal Plant

Bydd y nodiadau yn dweud wrthych am Fudd-dal Plant ac yn eich helpu i wneud cais. Maent hefyd yn dweud wrthych sut i gael mwy o help a gwybodaeth os bydd eu hangen arnoch.

Cyflwyniad

I wneud cais am Fudd-dal Plant llenwch y ffurflen gais CH2, a roddwyd i chi gyda'r nodiadau hyn, neu ewch ar-lein yn **www.hmrc.gov.uk**

Beth yw Budd-dal Plant?

Mae Budd-dal Plant yn fudd-dal a delir i bobl sy'n magu plant. Nid yw'n dibynnu ar faint o arian rydych yn ei ennill, nac ar unrhyw gynilion sydd gennych.

Ar gyfer pwy y telir Budd-dal Plant?

Gellir talu Budd-dal Plant ar gyfer plentyn neu berson ifanc cymwys. Mae plentyn yn unrhyw berson o dan 16 oed. Mae *person ifanc cymwys* yn rhywun sydd:

- yn 16, 17, 18 neu 19 oed, **ac**
  - mewn addysg llawn amser nad yw'n addysg uwch, neu
  - mewn hyfforddiant sydd wedi'i gymeradwyo, **neu**
- yn 16 neu 17 oed ac wedi gadael addysg llawn amser nad yw'n addysg uwch neu hyfforddiant sydd wedi'i gymeradwyo, ac wedi cofrestru ar gyfer addysg nad yw'n addysg uwch, gwaith neu hyfforddiant gyda'r Gwasanaeth Gyrfaoedd neu Connexions (yng Ngogledd Iwerddon, yr Adran Gyflogaeth a Dysgu neu Fwrdd Addysg a Llyfrgelloedd).

Ar gyfer gweddill y nodiadau hyn ac ar y ffurflen, pan fyddwn yn defnyddio'r term plentyn neu blant rydym hefyd yn cynnwys person neu bobl ifanc cymwys.

Pwysig

Ni allwn dalu Budd-dal Plant:

- ar gyfer person ifanc 16, 17, 18 neu 19 oed sydd mewn addysgu uwch.
- ar gyfer person ifanc 19 oed y dechreuodd ei addysg llawn amser nad yw'n addysg uwch neu ei hyfforddiant sydd wedi'i gymeradwyo ar ôl ei ben-blwydd yn 19 oed oni bai ei fod wedi'i gofrestru neu ei dderbyn ar y cwrs cyn cyrraedd 19 oed.
- ar ôl i berson ifanc gyrraedd 20 oed. Mae Budd-dal Plant yn dod i ben yn 20 oed.

Pryd i wneud cais am Fudd-dal Plant

Dylech wneud cais am Fudd-dal Plant cyn gynted ag:

- y caiff eich baban ei eni **a'i** gofrestru, neu
- y daw plentyn i fyw gyda chi, neu
- y byddwch yn mabwysiadu plentyn sy'n byw gyda chi, neu
- y byddwch yn dechrau cyfrannu at y gost o ofalu am blentyn. Ond rhaid i'r swm y byddwch yn ei gyfrannu fod yr un peth â'r swm wythnosol o Fudd-dal Plant a gewch ar gyfer y plentyn hwnnw, neu'n fwy na hynny.

Faint y gallwch ei gael

O fis Ionawr 2009

£20.00 yr wythnos - ar gyfer y plentyn hynaf neu'r unig blentyn.
£13.20 yr wythnos - ar gyfer pob plentyn ychwanegol.

Cyfradd uwch o Fudd-dal Plant

Telir cyfradd uwch o Fudd-dal Plant ar gyfer y plentyn hynaf mewn teulu. Os bydd dau deulu yn ymuno i ddod yn un teulu, dim ond ar gyfer y plentyn hynaf yn y teulu newydd y caiff y gyfradd uwch o Fudd-dal Plant ei thalu.

Os yw eich partner yn cael Budd-dal Plant yn ei enw ei hun mae angen i chi ddweud wrthym am hyn ar y ffurflen gais fel y gallwn benderfynu pa un ohonoch a fydd yn cael y gyfradd uwch ar gyfer y plentyn hynaf.

Defnyddiwn y term *partner* i olygu person rydych yn briod ag ef/hi, partner sifil, neu berson yr ydych yn byw gydag ef/hi fel pe baech yn briod neu fel partner sifil.

Pwysig

Dim ond am hyd at dri mis y gellir ôl-ddyddio Budd-dal Plant.
Os byddwch yn oedi cyn anfon eich cais atom, gallech golli arian.

Pwy all gael Budd-dal Plant

Dim ond un person a all gael Budd-dal Plant ar gyfer plentyn. Nid oes rhaid i chi fod yn rhiant i'r plentyn i fod yn gymwys i gael Budd-dal Plant, ond mae'n rhaid i chi fod yn gyfrifol am blentyn. Os yw'r plentyn yn byw gyda rhywun arall gallwch gael Budd-dal Plant, dim ond os:

- rydych yn talu arian i fagu'r plentyn, ac
- mae'r swm a dalwch yn gyfartal â'r gyfradd wythnosol o Fudd-dal Plant ar gyfer y plentyn hwnnw, neu'n fwy na hynny, ac
- nid yw'r person y mae'r plentyn yn byw gydag ef yn cael Budd-dal Plant ar ei gyfer.

Mae'r un amodau yn berthnasol i chi os ydych chi, neu eich partner, yn un o Weision y Goron yn y DU sy'n gweithio dramor. Mae Gwas y Goron yn y DU yn berson sy'n gwasanaethu gyda Lluoedd EM neu'r Gwasanaeth Sifil.

Pwysig

Os cewch Fudd-dal Plant efallai y byddwch yn gymwys i gael help i ddiogelu eich Pensiwn Sylfaenol y Wladwriaeth. Gan mai dim ond un person a all gael Budd-dal Plant a bod yn gymwys, mae angen i chi benderfynu pwy ddylai wneud cais. Er mwyn eich helpu i wneud hyn, gweler 'Diogelwch Cyfrifoldebau Cartref' ar dudalennau 17 i 21.

Efallai na fyddwch yn gallu cael Budd-dal Plant os:

- bydd plentyn yn dechrau derbyn gofal gan awdurdod lleol (yng Ngogledd Iwerddon, Bwrdd neu Ymddiriedolaeth Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol), ac o ganlyniad yn peidio â byw gyda chi yn rheolaidd, neu
- mae plentyn yn cael ei gadw mewn llety diogel neu lety nad yw'n llety diogel, neu
- mae plentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol (yng Ngogledd Iwerddon, Bwrdd neu Ymddiriedolaeth Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol) wedi'i leoli gyda chi ac mae'r awdurdod lleol yn talu lwfans maethu i chi neu'n talu tuag at gost llety a chynhaliaeth y plentyn, neu
- mae eich hawl i ddod i mewn i'r DU neu aros yma ar yr amod nad ydych yn cael cymorth o arian y wlad, neu
- nid oes gennych hawl i breswylio yn y Deyrnas Unedig dan gyfraith y DU neu'r GE.

Sut i gysylltu â ni i gael help

I gysylltu â ni:

- ffoniwch y Llinell Gymorth rhwng 08.30 a 17:00 dydd Llun i ddydd Gwener.

Os ydych yn y Deyrnas Unedig

Llinell Gymorth	**0845 302 1489**
Minicom/Ffôn testun	**0845 302 1474**
Os mai Saesneg yw eich dewis iaith	**0845 302 1444**

Os ydych dramor

Llinell Gymorth	**00 44 161 210 3086**

- ewch i **www.hmrc.gov.uk**
- ysgrifennwch atom yn:

Child Benefit Office
PO Box 1
Newcastle upon Tyne
NE88 1AA

Gallwn ymateb i chi mewn fformat gwahanol os byddwch yn gofyn i ni wneud hynny. Er enghraifft, Braille, tâp sain neu brint bras.

Pan fyddwch yn cysylltu â ni, a fyddech cystal â rhoi eich enw llawn, eich rhif Yswiriant Gwladol, eich rhif Budd-dal Plant a'ch rhif ffôn yn ystod y dydd.

Os nad ydych yn fodlon ar ein gwasanaeth

Am ragor o wybodaeth am ein hymrwymiad gwasanaeth ewch i **www.hmrc.gov.uk**

Am ragor o wybodaeth am ein gweithdrefn gwyno, ewch i **www.hmrc.gov.uk** a dod o hyd i'r adran Cwynion gan ddefnyddio'r cyfleuster Chwilio. Ceir manylion llawn ynglŷn â sut i gysylltu â'r Swyddfa Budd-dal Plant ar dudalen 6 o'r nodiadau.

Llenwi'r ffurflen gais

Sut i wneud cais

Atebwch yr holl gwestiynau sy'n berthnasol i chi, a'ch partner os oes un gennych. Cyfeiriwch at y nodiadau hyn os nad ydych yn siŵr am eich ateb. Os bydd angen mwy o help arnoch, cysylltwch â ni.

Beth sydd angen i chi ei anfon gyda'ch ffurflen gais

Mae tudalennau 4 i 6 o'r ffurflen gais yn holi ynghylch y plant rydych am wneud cais ar eu cyfer. Os oes gennych fwy na phedwar plentyn defnyddiwch y lle yn Rhan 6 i ddweud wrthym amdanynt. Bydd angen i chi anfon y dogfennau canlynol atom:

- tystysgrif geni'r plentyn, neu
- tystysgrif geni a gewch ar ôl mabwysiadu'r plentyn, neu
- tystysgrif mabwysiadu'r plentyn.

Os na allwch anfon y dystysgrif geni neu fabwysiadu atom, anfonwch y ffurflen gais beth bynnag. Byddwn yn gofyn i chi anfon y tystysgrifau yn ddiweddarach.

Pwysig

Peidiwch ag anfon y dystysgrif geni neu fabwysiadu atom ar gyfer unrhyw un o'r plant rydych chi (neu rywun arall) wedi cael Budd-dal Plant ar ei gyfer yn y gorffennol.

Peidiwch ag anfon llungopïau o'r dystysgrif atom.

Cofiwch ysgrifennu eich enw a'ch cyfeiriad llawn ar y label bach gwyn sydd yn y pecyn cais hwn. Byddwn yn ei ddefnyddio i ddychwelyd eich tystysgrifau atoch cyn gynted ag y gallwn.

Sicrhewch fod gennym y cyfeiriad cywir i ddychwelyd y dogfennau y gwnaethoch eu hanfon atom. Os na allwn ddychwelyd eich dogfennau atoch (er enghraifft, os byddwch wedi symud heb roi eich cyfeiriad newydd i ni) byddwn yn eu cadw am gyfnod cyfyngedig cyn eu dinistrio.

Os byddwn yn credu nad yw rhai o'r dogfennau gwreiddiol y byddwch wedi eu hanfon atom yn rhai dilys, efallai y byddwn yn eu cadw.

Peidiwch ag anfon unrhyw basbortau atom oni fyddwn yn gofyn i chi wneud hynny.

Os na allwch wneud y cais eich hun (er enghraifft, na allwch reoli eich materion eich hun oherwydd salwch), gall rhywun arall wneud cais ar eich rhan. Cysylltwch â'ch Canolfan Byd Gwaith agosaf (yng Ngogledd Iwerddon, Swyddfa Swyddi a Budd-daliadau neu swyddfa nawdd cymdeithasol) am fwy o gyngor ynglŷn â hyn.

Rhan 1 Manylion Personol

Rhif Yswiriant Gwladol

Mae angen eich rhif Yswiriant Gwladol arnom i ddelio â'ch cais. Gallwch ddod o hyd iddo ar:

- gerdyn eich Rhif Yswiriant Gwladol, neu
- eich tystysgrif Diwedd Blwyddyn P60 a gewch gan eich cyflogwr ar ôl diwedd pob blwyddyn dreth, neu
- unrhyw lythyr gan y Swyddfa Credydau Treth, y Ganolfan Byd Gwaith neu'r Adran Gwaith a Phensiynau (yng Ngogledd Iwerddon, gan yr Adran dros Ddatblygu Cymdeithasol neu'r Asiantaeth Nawdd Cymdeithasol).

Gallai fod ar y slipiau cyflog a gewch gan eich cyflogwr hefyd.

Os nad oes gennych rif Yswiriant Gwladol dylech lenwi'r ffurflen gais o hyd. Unwaith y byddwn wedi derbyn eich cais byddwn yn cymryd camau i sicrhau pwy ydych chi. Efallai y byddwn yn eich holi am eich cefndir ac yn gofyn i chi gyflwyno unrhyw ddogfennau neu bapurau sydd gennych a fydd yn helpu i ategu'r wybodaeth a roddwch.

Os ydych yn byw yn y DU efallai y gofynnir i chi fynychu cyfweliad yn eich Canolfan Byd Gwaith leol (yng Ngogledd Iwerddon, Swyddfa Swyddi a Budd-daliadau neu swyddfa nawdd cymdeithasol) i weld a ellir rhoi rhif Yswiriant Gwladol i chi.

Ni allwn roi Budd-dal Plant i unrhyw un sydd heb rif Yswiriant Gwladol.

Pwysig

Yr unig ddogfen y dylech ei hanfon gyda'ch ffurflen gais yw tystysgrif geni neu fabwysiadu'r plentyn.

Ble rydych yn byw fel arfer

I gael Budd-dal Plant mae'n rhaid i chi fod yn bresennol, yn preswylio fel arfer ac â hawl i breswylio yn y Deyrnas Unedig (y DU). Rydych yn preswylio fel arfer yn y DU os:

- yw eich prif gartref yng Nghymru, Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon, neu
- rydych wedi dod i fyw yn y DU gyda'r bwriad o greu cartref sefydlog yn y DU yn rhan reolaidd o'ch bywyd.

Gellir eich trin fel pe baech yn bresennol yn y DU hyd yn oed os byddwch yn mynd dramor o bryd i'w gilydd ar wyliau neu ar fusnes.

Hyd yn oed os nad ydych yn byw yn y DU efallai y cewch Fudd-dal Plant mewn amgylchiadau penodol - gweler y dudalen nesaf. Rhowch enw'r wlad lle rydych yn byw ar dudalen 2 o'r ffurflen gais.

Yn atebol i reolaeth fewnfudo

Gwledydd yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE)

Awstria
Bwlgaria
Cyprus
Denmarc
Estonia
Ffrainc
Gweriniaeth Malta
Gwlad Belg
Gwlad Groeg
Gwlad Pwyl
Gwlad yr Iâ
Hwngari
Iwerddon
Latfia
Liechtenstein
Lithwania
Lwcsembwrg
Norwy
Portiwgal
Romania
Sbaen
Slofacia
Slofenia
Sweden
Y DU
Y Ffindir
Yr Almaen
Yr Eidal
Yr Iseldiroedd
Y Weriniaeth Siec

Rydych yn atebol i reolaeth fewnfudo os:

- dywed y Swyddfa Gartref y caniateir i chi aros ar yr amod nad oes modd i chi gael cymorth arian cyhoeddus, neu
- mae angen caniatâd arnoch i ddod i mewn i'r DU neu aros yma, ond nid ydych wedi'i gael.

Os ydych yn atebol i reolaeth fewnfudo, efallai y bydd gennych hawl o hyd i gael Budd-dal Plant os ydych:

- yn fewnfudwr noddedig dan reolau'r Swyddfa Gartref
- yn wladolyn o Algeria, Moroco, San Marino, Tiwnisia neu Dwrci sy'n weithiwr cyfreithlon yn y DU, neu'n aelod o deulu person o'r fath ac rydych yn byw gyda'r person hwnnw
- yn wladolyn gwlad sydd â chytundeb arbennig gyda'r DU ynglŷn â Budd-dal Plant neu wedi dod i fyw yn y DU o wlad o'r fath
- yn aelod o deulu person sy'n wladolyn y DU, y Swistir neu'r AEE (gweler y tabl ar y chwith).

Nid ydych yn atebol i reolaeth fewnfudo os ydych:

- yn wladolyn y DU
- yn wladolyn gwlad arall yn yr AEE (gweler y tabl ar y chwith) neu'r Swistir
- yn rhywun sydd wedi cael caniatâd i aros yn y DU am gyfnod amhenodol (gan gynnwys y rhai hynny sydd wedi cael caniatâd dewisol, dyngarol neu eithriadol i aros)
- yn rhywun sydd wedi cael lloches yn y DU.

Efallai y cewch Fudd-dal Plant os nad ydych yn byw yn y DU ond rydych:

- yn berson o wlad yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) neu o'r Swistir, ac rydych yn gweithio yn y Deyrnas Unedig, neu
- yn un o Weision y Goron yn y DU sy'n gweithio dramor, neu'n bartner i'r person hwnnw, neu
- yn berson o wlad arall yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (yn cynnwys y DU) neu o'r Swistir, sy'n byw dramor ac yn cael pensiwn y wladwriaeth o'r DU neu rai budd-daliadau nawdd cymdeithasol y DU.

Os nad ydych yn siŵr p'un a ydych yn perthyn i un o'r categorïau hyn, gofynnwch.

Rhan 2 Manylion eich partner

Defnyddiwn y term partner i olygu person rydych yn briod ag ef/hi, partner sifil, neu berson rydych yn byw gydag ef/hi fel pe baech yn briod neu fel partner sifil.

Gall Budd-dal Plant helpu i ddiogelu unrhyw Bensiwn Sylfaenol y Wladwriaeth a'ch helpu i fod yn gymwys i gael Ail Bensiwn y Wladwriaeth y gallwch ei gael pan fyddwch yn ymddeol, trwy gynllun o'r enw Diogelwch Cyfrifoldebau Cartref (HRP).

Os oes gennych bartner, mae angen i chi benderfynu pwy ddylai wneud cais am Fudd-dal Plant. Gweler 'Diogelwch Cyfrifoldebau Cartref' ar dudalennau 17 i 21.

Rhan 3 Plant rydych am wneud cais ar eu cyfer

Mae partner gan y plentyn

Os oes partner gan y plentyn ni ellir talu'r budd-dal i bartner y plentyn. Weithiau gellir talu'r budd-dal i rywun arall sy'n cael ei ystyried yn gyfrifol am y plentyn, megis rhiant y mae'r plentyn yn byw gydag ef/hi. Defnyddiwn y term partner y plentyn i olygu person y mae'r plentyn yn briod ag ef/hi, partner sifil, neu berson y mae'r plentyn yn byw gydag ef/hi fel pe baent yn briod neu fel partner sifil.

Os bydd plentyn farw

Os caiff plentyn ei eni ond ei fod yn marw cyn i chi wneud cais am Fudd-dal Plant gallwch barhau i wneud cais. Mae Budd-dal Plant yn daladwy am hyd at wyth wythnos ar ôl dyddiad marwolaeth plentyn. Rhowch ddyddiad marwolaeth y plentyn yn y lle a ddarperir yn Rhan 6. Bydd angen i chi anfon y dystysgrif geni atom. Os bu eich plentyn farw o fewn 28 diwrnod i'w eni, a fyddech cystal ag anfon copi o'r dystysgrif a roddwyd i chi.

Mae rhywun arall wedi gwneud cais am Fudd-dal Plant

Os yw'r plentyn yn byw gyda chi ond mae'r Budd-dal Plant yn cael ei dalu i rywun arall, gallwn drosglwyddo'r budd-dal i chi mewn rhai amgylchiadau. Os byddwn yn trosglwyddo'r budd-dal, ni fyddwch fel arfer yn cael taliad Budd-dal Plant am bedair wythnos (ac mewn rhai achosion wyth wythnos) ar ôl i chi wneud eich cais.

Os oes rhywun arall wedi gwneud cais am Fudd-dal Plant ar gyfer yr un plentyn rydych chi'n gwneud cais ar ei gyfer, byddwn yn cysylltu â chi.

Plentyn sy'n byw mewn cyfeiriad gwahanol

Os yw'r plentyn yn byw mewn cyfeiriad gwahanol ond eich bod chi'n talu tuag at y gost o ofalu am y plentyn ac mae'r ddau ohonoch yn gwneud cais am y budd-dal, y person y mae'r plentyn yn byw gydag ef/hi fydd yn cael y Budd-dal Plant fel arfer.

Plentyn sy'n byw gyda mwy nag un person

Os yw'r plentyn yn byw gyda mwy nag un person, gall pob person wneud cais am Fudd-dal Plant. Fodd bynnag, dim ond un person a all fod â hawl i gael Budd-dal Plant ar gyfer pob plentyn bob wythnos. Os gofelir am ddau blentyn neu fwy, gellir talu Budd-dal Plant i bob person ar gyfer plentyn gwahanol. Os na allwch gytuno ar ba un ohonoch ddylai gael y Budd-dal Plant, bydd rhywun sy'n gweithredu ar ran Comisiynwyr Cyllid a Thollau EM yn penderfynu.

Rhan 4 Plant nad ydynt yn blant i chi

Plant nad ydynt yn blant i chi

Os nad chi yw rhiant y plentyn ond mai chi sy'n gofalu am y plentyn, gallwch ddal i wneud cais am Fudd-dal Plant. Ond os ydych yn byw yn yr un cyfeiriad â rhiant y plentyn, ac mae'r person hwnnw hefyd yn gwneud cais am Fudd-dal Plant, telir y budd-dal fel arfer i riant y plentyn.

Rhan 5 Sut y byddwn yn eich talu

Sut y telir Budd-dal Plant

Rydym yn talu Budd-dal Plant yn uniongyrchol i mewn i gyfrif banc, cymdeithas adeiladu neu gyfrif cerdyn Swyddfa'r Post®. Dyma'r ffordd fwyaf diogel o'ch talu ac mae'n gadael i chi ddewis sut a phryd y byddwch yn cael eich arian. Mae'r rhan fwyaf o'r banciau mawr yn cynnig cyfrifon y gallwch eu defnyddio i gasglu eich arian mewn Swyddfeydd Post. Ceir manylion am yr holl fathau o gyfrifon ar dudalennau 14 a 15.

Mae'n rhaid talu eich Budd-dal Plant i mewn i un cyfrif ar gyfer pob plentyn. Gallwch ddefnyddio cyfrif sydd gennych eisoes neu agor un newydd, ond ni allwn dalu Budd-dal Plant i mewn i gyfrif sydd yn enw plentyn na chyfrif sydd yn eich enw chi ac yn enw plentyn.

Os ydych yn un o Weision y Goron yn y DU sy'n gweithio dramor dim ond i gyfrif yn y DU y gallwn dalu'n uniongyrchol i mewn iddo.

Os oes gennych Gyfrif Cynilo Unigol (ISA) rydym yn argymell **na** thelir eich Budd-dal Plant i mewn iddo. Mae terfyn ar y swm y gellir ei dalu i'r cyfrifon hyn. Bydd eich banc neu gymdeithas adeiladu yn gwrthod eich taliad Budd-dal Plant os bydd yn mynd â chi dros y terfyn hwnnw.

Rydym yn talu'n uniongyrchol i mewn i gyfrifon oherwydd:

- mae'n saff ac yn ddiogel
- mae'n gyfleus - chi sy'n penderfynu pryd a faint rydych am ei godi
- gall defnyddio cyfrif eich helpu i gynilo
- gallech dalu biliau rheolaidd o rai cyfrifon. Gallai hyn arbed arian i chi os bydd angen i chi sicrhau bod digon o arian yn eich cyfrif i dalu'r biliau. Os nad oes, efallai y codir ffi arnoch
- gallwch gael eich arian o sawl lle gwahanol. Bydd rhai cyfrifon yn caniatáu i chi ddefnyddio peiriannau arian i godi arian ar unrhyw adeg o'r dydd neu'r nos.

Gall y cyfrif fod:

- yn eich enw chi, neu
- yn enw eich partner, neu
- yn eich enw chi ac yn enw eich partner, neu
- yn eich enw chi ac yn enw'r person sy'n gweithredu ar eich rhan, neu
- yn enw rhywun sy'n gweithredu ar eich rhan.

Os oes gennych gyfrif cerdyn Swyddfa'r Post®, gall y cyfrif fod yn eich enw chi, neu yn enw person penodedig. Mae hefyd yn bosibl i chi drefnu gyda Swyddfa'r Post® i rywun arall gasglu eich budd-dal o'r cyfrif hwn yn rheolaidd.

Cael gwybod faint sy'n cael ei dalu i mewn i'r cyfrif

Byddwn yn dweud wrthych pryd y gwneir y taliad cyntaf a swm y taliad hwnnw. Gallwch wirio eich taliadau Budd-dal Plant ar eich cyfriflenni. Efallai y bydd eich cyfriflenni yn dangos eich rhif Budd-dal Plant wrth ymyl y taliadau a wnaed gennym ni. Os credwch fod eich taliad yn anghywir, cysylltwch â ni.

Os na thelir digon o arian i mewn i'ch cyfrif, byddwn yn gwneud taliad arall i chi neu'n ychwanegu'r arian sy'n ddyledus at eich taliad nesaf. Byddwn yn cysylltu â chi i ddweud wrthych beth y byddwn yn ei wneud.

Os byddwn yn talu gormod o arian i mewn i'ch cyfrif, er enghraifft, os byddwch yn rhoi gwybodaeth i ni sy'n golygu bod gennych hawl i lai o arian ond nad oes amser gennym i newid eich taliad rheolaidd, bydd yn rhaid i chi ad-dalu unrhyw arian nad oes gennych hawl iddo.

Cael rhywun i gasglu eich Budd-dal Plant

Os hoffech i rywun arall gasglu eich budd-dal ar eich rhan yn rheolaidd, efallai y gallwch drefnu hynny gyda'ch banc neu'ch cymdeithas adeiladu, neu gyda Swyddfa'r Post® os oes gennych gyfrif cerdyn Swyddfa'r Post®. Gofynnwch iddynt eich helpu gyda hyn.

Pa fath o gyfrifon sydd ar gael?

Cyfrifon cyfredol

Mae cyfrifon cyfredol ar gael i'w hagor yn y rhan fwyaf o fanciau ac mewn rhai cymdeithasau adeiladu. Mae'r rhan fwyaf o gyfrifon cyfredol yn cynnig cardiau debyd, llyfrau sieciau, cyfleusterau gorddrafft a'r gallu i dalu biliau'n awtomatig drwy ddebyd uniongyrchol neu archeb sefydlog. Gellir talu eich cyflog neu arian arall i mewn i'r cyfrifon hyn, a gallwch godi eich arian o beiriannau arian trwy ddefnyddio cerdyn. Mae'r banciau a'r cymdeithasau adeiladu canlynol hefyd yn caniatáu i chi dalu arian i mewn i gyfrifon cyfredol a chodi arian ohonynt yn rhad ac am ddim yng nghanghennau Swyddfa'r Post®:

- Alliance & Leicester, The Co-operative Bank, cahoot, smile
- Lloyds TSB, Barclays (nid Gogledd Iwerddon)
- First Direct (yr Alban yn unig).

Cyfrifon banc sylfaenol

Mae'r rhan fwyaf o'r banciau mawr yn cynnig y rhain. Weithiau fe'u gelwir yn gyfrifon rhagarweiniol neu gyfrifon cychwynnol ac maent yn cynnig bancio am ddim, ond nid oes gorddrafftiau ar gael. Gallwch ddefnyddio'r cyfrifon hyn i dalu arian i mewn, talu biliau'n awtomatig a chodi arian parod. Mae'r rhan fwyaf o gyfrifon banc sylfaenol hefyd yn caniatáu i chi godi arian o Swyddfeydd Post.

Sut mae cyfrif cerdyn Swyddfa'r Post® yn gweithio

Cyfrifon cerdyn Swyddfa'r Post®

Cyfrif syml yw hwn a weithredir gan Swyddfa'r Post® ac a gynlluniwyd ar gyfer cael budd-daliadau, pensiynau a chredydau treth. Ni ellir talu taliadau eraill, er enghraifft cyflogau, i mewn i'r cyfrif hwn. Gallwch gael eich arian parod dros y cownter mewn unrhyw gangen Swyddfa'r Post® gan ddefnyddio cerdyn a Rhif Adnabod Personol (PIN). Ni fyddwch yn gallu defnyddio banc, cymdeithas adeiladu na pheiriant arian.

Nid yw cyfrif cerdyn Swyddfa'r Post® yn caniatáu i chi fynd i orddrafft ac ni chodir taliadau ychwaith.

Os hoffech gael mwy o wybodaeth am gyfrif cerdyn Swyddfa'r Post®, neu os hoffech agor cyfrif:

- ewch i dudalen 8 o'r ffurflen gais
- ticiwch y blwch wrth ymyl y datganiad 'Hoffwn gael mwy o wybodaeth am agor cyfrif'

a byddwn yn cysylltu â chi er mwyn esbonio sut y gellir defnyddio'r cyfrif cerdyn a sut i agor cyfrif.

Os na allwch agor cyfrif

Os nad oes gennych gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu addas eisoes, neu os nad ydych yn dymuno defnyddio cyfrif sydd gennych (er enghraifft, cyfrif ar y cyd), bydd unrhyw fanc neu gymdeithas adeiladu yn eich helpu i agor cyfrif sy'n fwy addas i chi.

Cofiwch ofyn a fydd eu cyfrifon yn caniatáu i chi gael eich arian o Swyddfa'r Post® os yw hyn yn bwysig i chi.

Os na allwch agor cyfrif, cysylltwch â ni.

Pa mor aml y telir Budd-dal Plant?

Telir Budd-dal Plant bob pedair wythnos fel arfer. Fodd bynnag, gallwch ddewis i'ch Budd-dal Plant gael ei dalu bob wythnos os ydych yn magu plant ar eich pen eich hun, neu os ydych chi (neu eich partner os oes un gennych) yn cael:

- Cymhorthdal Incwm, neu
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm.

Os ydych am i'ch Budd-dal Plant gael ei dalu bob wythnos, dywedwch wrthym ar dudalen 10 o'r ffurflen gais pam eich bod yn gymwys.

Os ydych yn gymwys ac yn dewis cael eich Budd-dal Plant bob wythnos, mae'n rhaid i chi ddweud wrthym ar unwaith os byddwch:

- yn rhoi'r gorau i fagu plant ar eich pen eich hun, neu
- yn rhoi'r gorau i gael o leiaf un o'r budd-daliadau uchod.

Os bydd hyn yn digwydd, efallai y byddwn yn rhoi'r gorau i dalu Budd-dal Plant bob wythnos.

Rhan 6 Gwybodaeth arall

Defnyddiwch y lle a roddir ar dudalen 10 i ddweud wrthym am unrhyw beth arall y credwch y gallai fod angen i ni ei wybod.

Rhan 7 Datganiad

Mae'n rhaid i chi lofnodi a rhoi'r dyddiad ar y datganiad ar dudalen 11 o'r ffurflen. Os na wnewch hyn, caiff eich cais ei oedi.

Chi sy'n gyfrifol am yr holl wybodaeth a ddarparwch ar y ffurflen. Caiff y wybodaeth a roddwch ei defnyddio i benderfynu p'un a gewch Fudd-dal Plant. Efallai y bydd yn rhaid i chi ad-dalu unrhyw Fudd-dal Plant a ordalwyd os byddwch yn rhoi gwybodaeth anghywir neu anghyflawn.

Rhan 8 Beth i'w wneud nawr

Dilynwch gamau 1 i 4 ar dudalen 11 o'r ffurflen.

Beth fydd yn digwydd nesaf

Byddwn yn dychwelyd tystysgrif geni neu fabwysiadu'r plentyn atoch o fewn pedair wythnos. Os na fyddwch wedi'i derbyn erbyn hynny, dylech gysylltu â ni er mwyn sicrhau ein bod wedi derbyn eich cais. Pan fyddwn wedi delio â'ch cais, byddwn yn ysgrifennu atoch er mwyn dweud wrthych a allwch gael Budd-dal Plant, ac os felly, faint a delir.

Budd-daliadau eraill sy'n gysylltiedig â Budd-dal Plant

Y Gronfa Ymddiriedolaeth Plant

Mae pob plentyn a aned ar neu ar ôl 1 Medi 2002 yn gymwys i gael cyfrif Cronfa Ymddiriedolaeth Plant os yw'n byw yn y DU, y dyfarnwyd Budd-dal Plant ar ei gyfer ac nid yw'n atebol i gyfyngiadau mewnfudo. Nid oes angen llenwi ffurflen i gael y daleb Cronfa Ymddiriedolaeth Plant ar gyfer eich plentyn. Fe'i hanfonir atoch yn syth ar ôl i chi ddechrau cael Budd-dal Plant.

Os hoffech gael mwy o wybodaeth am y Gronfa Ymddiriedolaeth Plant ffoniwch **0845 302 1489** neu ewch i'w gwefan **www.childtrustfund.gov.uk**

Credydau treth

Gall pobl â phlant sy'n ennill llai na £58,000 (£66,000 os oes gennych faban dan flwydd oed) hawlio credydau treth. Er mwyn archebu ffurflen gais am gredydau treth ffoniwch y Llinell Gymorth ar **0845 302 1489**. Mae'r llinellau ar agor bob dydd rhwng 08:30 a 17.00.

Diogelwch Cyfrifoldebau Cartref

Os ydych yn cael Budd-dal Plant ar gyfer plentyn o dan 16 oed, byddwch yn gymwys yn awtomatig ar gyfer cynllun o'r enw Diogelwch Cyfrifoldebau Cartref, sy'n helpu i ddiogelu eich Pensiwn Sylfaenol y Wladwriaeth. Os ydych yn gymwys i gael Diogelwch Cyfrifoldebau Cartref oherwydd eich bod yn cael Budd-dal Plant ar gyfer plentyn dan chwech oed byddwch yn awtomatig yn cronni hawl i gael pensiwn ychwanegol y wladwriaeth drwy Ail Bensiwn y Wladwriaeth.

Pensiwn Sylfaenol y Wladwriaeth

Er mwyn bod â hawl i gael Pensiwn Sylfaenol y Wladwriaeth pan fyddwch yn ymddeol bydd angen digon o 'flynyddoedd cymhwyso' arnoch. Cronnir y blynyddoedd cymhwyso hyn drwy'r cyfraniadau Yswiriant Gwladol a dalwch, neu y cewch eich trin fel pe baech yn eu talu, tra byddwch yn gweithio.

Os na allwch weithio oherwydd eich bod yn sâl, neu'n ddi-waith ac wedi cofrestru fel eich bod yn chwilio am waith, byddwch fel arfer yn cael credyd Yswiriant Gwladol sydd hefyd yn helpu i gronni blynyddoedd cymhwyso. Dyfernir credyd i chi, er enghraifft, os ydych yn cael Lwfans Ceisio Gwaith, Budd-dal Analluogrwydd, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth neu Lwfans Gofalwr.

Efallai y dyfernir credyd i chi hefyd os ydych yn cael Credyd Treth Gwaith ond nid ydych yn ennill digon i dalu neu i gael eich trin fel pe baech yn talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol. Os nad ydych yn siŵr p'un a ydych yn cael credyd Yswiriant Gwladol, gofynnwch yn y swyddfa sy'n talu eich budd-dal, neu yn eich Canolfan Ymholiadau Cyllid a Thollau EM agosaf.

Mae mwy o wybodaeth am nifer y blynyddoedd cymhwyso sydd eu hangen ar gyfer cael Pensiwn Sylfaenol y Wladwriaeth llawn ar gael yn nhaflen PM2W *Pensiynau'r Wladwriaeth - Eich Canllaw,* o'ch Canolfan Byd Gwaith agosaf (yng Ngogledd Iwerddon, Swyddfa Swyddi a Budd-daliadau neu swyddfa nawdd cymdeithasol).

Cynllun Diogelwch Cyfrifoldebau Cartref

Tra byddwch yn magu plant efallai na fyddwch yn gweithio nac yn cael credyd Yswiriant Gwladol. Ac os ydych yn gweithio'n rhan amser efallai na fyddwch yn ennill digon i dalu, neu i gael eich trin fel pe baech yn talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol.

Mae Diogelwch Cyfrifoldebau Cartref yn helpu i sicrhau na fyddwch yn cael llai o Bensiwn Sylfaenol y Wladwriaeth dim ond oherwydd eich bod yn magu plant.

Ar gyfer pob blwyddyn dreth lawn (o fis Ebrill i fis Ebrill) y cewch Fudd-dal Plant ar gyfer plentyn o dan 16 oed, cofnodir 'blwyddyn Diogelwch Cyfrifoldebau Cartref' yn awtomatig. Gall y blynyddoedd hyn leihau nifer y blynyddoedd cymhwyso sydd eu hangen arnoch ar gyfer Pensiwn Sylfaenol y Wladwriaeth.

Pwysig

Ni ellir dyfarnu Diogelwch Cyfrifoldebau Cartref ar gyfer rhan o'r flwyddyn dreth. I fod yn gymwys, mae'n rhaid i chi fod yn cael Budd-dal Plant ar gyfer plentyn o dan 16 oed drwy gydol y flwyddyn dreth. Mae blwyddyn dreth yn dechrau ar 6 Ebrill ac yn dod i ben ar 5 Ebrill y flwyddyn ganlynol.

Dim ond y person sydd wedi gwneud cais ac y dyfarnwyd Budd-dal Plant iddo a all gael Diogelwch Cyfrifoldebau Cartref. Felly mae'n bwysig penderfynu'n ofalus pwy ddylai wneud cais am Fudd-dal Plant a chael y Diogelwch Cyfrifoldebau Cartref.

Os ydych yn briod, neu'n byw gyda phartner, dylech ystyried ar y cyd pwy ddylai wneud cais am Fudd-dal Plant a chael y Diogelwch Cyfrifoldebau Cartref. Fel arfer y person hwn fydd yr un sydd angen diogelu ei bensiwn. Mewn amgylchiadau eithriadol, os oes gennych fwy nag un plentyn, gallai fod yn fuddiol i'r ddau ohonoch wneud cais am Fudd-dal Plant ar gyfer plant gwahanol, ond mae'n rhaid iddynt fod o dan 16 oed i chi fod yn gymwys i gael Diogelwch Cyfrifoldebau Cartref. Byddai hyn yn golygu y gallai'r ddau ohonoch gael Diogelwch Cyfrifoldebau Cartref drwy Fudd-dal Plant i ddiogelu eich Pensiwn Sylfaenol y Wladwriaeth. Bydd hyn ond yn fanteisiol i chi os nad yw'r naill na'r llall ohonoch yn cronni hawl i gael Pensiwn y Wladwriaeth drwy waith neu gredydau Yswiriant Gwladol.

Os bydd eich amgylchiadau'n newid yn y dyfodol, gall y person sy'n cael y Budd-dal Plant yn awr ofyn i ni ei drosglwyddo i'w bartner. Dim ond ar gyfer blynyddoedd treth lawn y gellir dyfarnu Diogelwch Cyfrifoldebau Cartref. Felly i fod yn gymwys ar gyfer Diogelwch Cyfrifoldebau Cartref, mae'n rhaid i chi neu eich partner wneud cais am drosglwyddo'r hawl i Fudd-dal Plant o fewn tri mis cyntaf y flwyddyn dreth (6 Ebrill i 6 Gorffennaf).

I wneud hyn bydd angen i chi anfon cais eich partner am Fudd-dal Plant ar ffurflen gais Budd-dal Plant wedi'i chwblhau ynghyd â'ch cytundeb ysgrifenedig eich bod am ildio eich hawl i gael Budd-dal Plant o ddechrau'r flwyddyn dreth.

Os na chawn y wybodaeth hon mewn pryd i drosglwyddo eich taliad Budd-dal Plant erbyn 6 Gorffennaf, bydd eich partner yn colli ei hawl i gael Diogelwch Cyfrifoldebau Cartref ar gyfer y flwyddyn dreth honno. Byddwch chithau'n colli Diogelwch Cyfrifoldebau Cartref hefyd os na fyddwch yn parhau i gael Budd-dal Plant ar gyfer o leiaf un plentyn o dan 16 oed.

I sicrhau na fydd eich partner ar ei golled, mae'n rhaid i chi anfon y wybodaeth hon atom cyn gynted ag y gallwch ar ôl 6 Ebrill.

Dyma rai enghreifftiau i esbonio pwy all gael Diogelwch Cyfrifoldebau Cartref.

Enghraifft 1
Os ydych yn gwpl ac mae un ohonoch yn gweithio ac yn talu (neu'n cael eich trin fel pe baech yn talu) cyfraniadau Yswiriant Gwladol ac mae'r llall yn aros gartref i ofalu am blentyn, gallai'r person nad yw'n gweithio gael Diogelwch Cyfrifoldebau Cartref drwy wneud cais am Fudd-dal Plant.

Enghraifft 2
Os yw'r ddau ohonoch yn gweithio'n rhan amser ac yn derbyn enillion isel, efallai bod gennych hawl i gael Credyd Treth Gwaith. Os nad yw'r naill na'r llall ohonoch yn talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol, cysylltwch â'ch swyddfa dreth er mwyn gweld a yw un ohonoch yn cael eich trin fel pe baech yn talu cyfraniad neu'n cael credyd. Gallai'r person nad yw'n talu, ac na chaiff ei drin fel petai'n talu neu'n cael credyd gael Diogelwch Cyfrifoldebau Cartref drwy wneud cais am Fudd-dal Plant.

Enghraifft 3
Os ydych yn cael Lwfans Gofalwr oherwydd eich bod yn gofalu am berthynas sy'n anabl am fwy na 35 awr yr wythnos byddwch yn cael credyd Yswiriant Gwladol. Os yw eich partner yn gweithio ac yn talu (neu'n cael ei drin fel petai'n talu) cyfraniadau Yswiriant Gwladol, ni fydd angen Diogelwch Cyfrifoldebau Cartref ar y naill na'r llall ohonoch ar hyn o bryd. Er mwyn eich helpu i benderfynu pwy ddylai wneud cais am Fudd-dal Plant efallai y dylech feddwl am bwy, yn ôl pob tebyg, y bydd angen Diogelwch Cyfrifoldebau Cartref arno yn y dyfodol.

Os nad ydych yn siŵr a fyddai hyn yn eich helpu, neu os hoffech gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â'ch Canolfan Ymholiadau Cyllid a Thollau EM neu eich Canolfan Byd Gwaith agosaf (yng Ngogledd Iwerddon, Swyddfa Swyddi a Budd-daliadau neu swyddfa nawdd cymdeithasol) neu ewch i **www.ygwasanaethpensiwn.gov.uk**

Ail Bensiwn y Wladwriaeth

Mae Ail Bensiwn y Wladwriaeth yn rhoi pensiwn ychwanegol y wladwriaeth sy'n fwy hael ar gyfer pobl sy'n ennill incwm isel neu gymedrol, a rhai gofalwyr gan gynnwys y rhai hynny sy'n magu plant ifanc a'r rhai hynny sy'n gofalu am bobl â salwch neu anabledd hirdymor.

O fis Ebrill 2002 ymlaen, os ydych yn gymwys i gael Diogelwch Cyfrifoldebau Cartref am eich bod yn cael Budd-dal Plant ar gyfer plentyn dan chwech oed, byddwch yn awtomatig yn cronni hawl i gael pensiwn ychwanegol y wladwriaeth drwy Ail Bensiwn y Wladwriaeth.

Os ydych yn gofalu am blentyn chwech oed neu'n hŷn sydd â salwch neu anabledd hirdymor, gallwch hefyd gael Ail Bensiwn y Wladwriaeth.

Am fwy o wybodaeth ac i gael gwybod sut i wneud cais

- cysylltwch â'ch Canolfan Ymholiadau Cyllid a Thollau EM neu eich Canolfan Byd Gwaith agosaf (yng Ngogledd Iwerddon, Swyddfa Swyddi a Budd-daliadau neu swyddfa nawdd cymdeithasol) neu
- ffoniwch **0845 302 1489** (Minicom/ffôn testun **0845 604 0210**) a gofynnwch am daflenni CF411W *Diogelwch Cyfrifoldebau Cartref a PM9W Pensiynau'r Wladwriaeth ar gyfer gofalwyr a rhieni - Eich canllaw.*

Neu, ewch i **www.ygwasanaethpensiwn.gov.uk**

Lwfans Gwarcheidwad

Mae Lwfans Gwarcheidwad ar gyfer pobl sy'n magu plentyn oherwydd bod un rhiant neu'r ddau wedi marw. Nid oes rhaid i chi fod yn warcheidwad cyfreithlon y plentyn i gael y lwfans hwn. Fodd bynnag, mae'n rhaid eich bod yn cael Budd-dal Plant cyn y gallwch gael Lwfans Gwarcheidwad. Ni ellir talu Lwfans Gwarcheidwad i riant sy'n goroesi.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â ni.

Os hoffech gael pecyn cais ffoniwch yr Uned Lwfans Gwarcheidwad ar **0845 302 1489**.

Deddf Diogelu Data

Sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth

Mae Cyllid a Thollau EM yn Rheolydd Data o dan Ddeddf Diogelu Data 1998. Rydym yn dal gwybodaeth at y dibenion a nodir yn ein hysbysiad i'r Comisiynydd Gwybodaeth, yn cynnwys asesu a chasglu treth a thollau, talu budd-daliadau ac atal a chanfod troseddau, ac efallai y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon at unrhyw un o'r dibenion hyn. Efallai y byddwn yn cael gwybodaeth amdanoch gan bobl eraill, neu efallai y byddwn yn rhoi gwybodaeth iddynt. Os gwnawn hynny, fe'i gwnawn yn unol â'r gyfraith er mwyn:

- cadarnhau cywirdeb gwybodaeth
- atal neu ganfod troseddau
- diogelu arian cyhoeddus.

Efallai y byddwn yn cymharu gwybodaeth a gawn amdanoch chi â'r hyn sydd eisoes yn ein cofnodion. Gall hyn gynnwys gwybodaeth a ddarperir gennych chi, a chan eraill, megis adrannau neu asiantaethau eraill y llywodraeth ac awdurdodau treth a thollau dramor. Ni fyddwn yn rhoi gwybodaeth i unrhyw un y tu allan i Gyllid a Thollau EM oni fydd y gyfraith yn caniatáu i ni wneud hynny. Am ragor o wybodaeth, ewch i **www.hmrc.gov.uk** ac edrychwch am *Data Protection Act* yn y cyfleuster *Chwilio* .

Help arall i bobl â phlant

Efallai y gallwch gael help arall gyda'r gost o fagu eich plentyn. Ceir rhai manylion isod - mae'r taflenni y sonnir amdanynt ar gael o unrhyw Ganolfan Ymholiadau Cyllid a Thollau EM.

Credydau treth

WTC1W	*Credyd Treth Plant a Chredyd Treth Gwaith - Cyflwyniad*
WTC5W	*Help gyda chostau gofal plant - gwyobdaeth i rieni a darparwyr gofal plant*
WTC6	*Credyd Treth Plant a Chredyd Treth Gwaith - Mathau eraill o help y gallech eu cael*

Costau iechyd

Efallai y bydd gennych hawl i gael presgripsiynau, sbectol a gofal deintyddol am ddim.

HC11W	*A oes gennych hawl i gael help gyda chostau iechyd?*
SD1W	*Sâl neu anabl*
SD4W	*Gofalu am rywun?*

Rhieni Unigol

Am wybodaeth am fudd-daliadau a help arall sydd ar gael i rieni unigol, cysylltwch â'r Cyngor Cenedlaethol ar gyfer Teuluoedd Un Rhiant. Neu cysylltwch â'ch grŵp Gingerbread agosaf, sydd yn sefydliad ar gyfer teuluoedd un rhiant.

Taflenni defnyddiol

Efallai bod gennych hawl i gael help arall - bydd y taflenni canlynol yn rhoi mwy o wybodaeth i chi.

BC1W	*Babanod a Phlant*
GL18W	*Help gan y Gronfa Gymdeithasol*
GL23W	*Cyfraddau budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol*
GL28W	*Dod o dramor a budd-daliadau nawdd cymdeithasol*
IR115W	*Treth Incwm, cyfraniadau Yswiriant Gwladol a Gofal Plant*
WK1W	*Help ariannol os ydych mewn gwaith neu'n chwilio am waith*